## PWYLLGOR IAITH DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2015

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd yn y gadair).

**Y Cynghorwyr:** Tom Ellis, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Elfed Williams a Hefin Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Debbie Williams Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (ac Iaith)), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle)) Garem Jackson (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Charles Jones, Eric Merfyn Jones a Sion Jones.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. YMGYNGHORIAD AR HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac Iaith) yn cyflwyno crynodeb o'r Hysbysiad Cydymffurfio a'r prif bwyntiau y gofynnid i'r pwyllgor eu trafod ac ymateb iddynt.

Nodwyd y byddai ymgynghori hefyd gyda'r Grŵp Rheoli a'r Tîm Rheoli Corfforaethol cyn i'r Aelod Cabinet ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau ar gynnwys y safonau:-

1. <u>Cyflenwi Gwasanaethau (1-87)</u>

- <u>Safonau 2, 3, 21, 28, 32, 72</u> – Mae'r egwyddor o gyflenwi gwasanaethau yn ôl yr angen yn hytrach nag yn ôl y dewis yn egwyddor sylfaenol, a dylai fod yn egwyddor drwy Gymru gyfan. Os rhoddir dewis, mae pobl yn dueddol o ddweud nad oes ots ganddynt, a gallai hynny arwain at leihau'r defnydd o'r Gymraeg.
- <u>Safon rhif 12</u> – Awgrymir bod lle i roi'r Gymraeg flaenaf wrth hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau.
- <u>Safon 30</u> – Mae'r Cyngor yn darparu cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus a gynhelir, ac mae'r Gymraeg wedi ei normaleiddio i'r graddau fod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol bod modd iddynt siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor.
- <u>Safon rhif 49</u> – Nid yw'n arferol i'r Cyngor hwn lunio fersiwn Cymraeg a Saesneg o ddogfen ar wahân.
- <u>Safonau 67-68</u> – Yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor, mae holl staff y derbynfeydd yn gwbl ddwyieithog. O ganlyniad, nid yw'r staff yn gwisgo bathodynnau i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac nid oes arwyddion yn datgan fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. Unwaith eto, mae lle i ddadlau bod polisi'r Cyngor fel ag y mae yn fwy na digonol ar gyfer y gofynion.
- <u>Cyffredinol</u> –

- Mae Cynllun Iaith y Cyngor eisoes yn mynd y tu hwnt i ran helaeth o'r safonau hyn. Dylid sicrhau nad yw geiriad y safonau yn glastwreiddio'r Cynllun Iaith a'u bod yn adlewyrchu'r sefyllfa sydd wedi datblygu yn naturiol yng Ngwynedd dros y blynyddoedd drwy arferiad a gweithdrefnau.
- Rhaid cadw mewn cof y trefniadau ad-drefnu ar gyfer yr Awdurdodau Lleol ac effaith bosib' hyn ar gydymffurfiad â'r Safonau maes o law.

2. <u>Llunio Polisi (88-97)</u>

- Croesawir y ffaith bod y Cyngor yn llunio polisïau sydd ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg fel mater o drefn, ond cytunwyd y byddai ffurfioli'r drefn drwy roi strwythur mewn lle i brofi bod ystyriaeth lawn wedi'i roi i'r Gymraeg, yn ffordd o hybu hynny mewn ffordd gadarnhaol.
- Na ddymunir creu gwaith papur ychwanegol, ond yn hytrach gellid plethu cyfundrefn i dystiolaethu i'r drefn bresennol o gyflwyno polisïau i'r Cabinet.

3. <u>Gweithredu (98-144)</u>

- Dylai'r safonau ganiatáu i'r Cyngor hwn barhau i weithredu yn unol â'i Gynllun Iaith o safbwynt gweinyddiaeth fewnol oherwydd gallai rhoi'r pwyslais ar 'ddewis' iaith effeithio yn negyddol ar statws y Gymraeg yn hytrach na'i chryfhau drwy arwain at aelodau o staff yn dewis derbyn gwybodaeth yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg.
- Y gallai'r ffaith y byddai gan y Safonau fwy o rym na Chynllun Iaith y Cyngor effeithio yn negyddol ar allu Cyngor Gwynedd i gario ymlaen i weithredu fel y mae ar hyn o bryd yng ngoleuni unrhyw her.

4. <u>Cadw Cofnodion (147-154) a Safonau Atodol (155-176)</u>

- Er bod cadw cofnodion ar gyfer cydymffurfio â'r safonau yn mynd i greu mwy o waith i'r Cyngor hwn, byddai'r Cyngor yn fodlon ysgwyddo'r baich gan ei fod yn mynd i fod o gymorth o safbwynt gorfodi cynghorau eraill i weithredu yn yr un modd. Byddai hefyd yn fodd o gadarnhau sefyllfa'r Cyngor hwn petai unrhyw fater yn codi.

5. <u>Hybu (173-174)</u>

- Mae gan y Cyngor (o dan Hunaniaith) Strategaeth Iaith i'r sir, a gyhoeddwyd yn 2014 am gyfnod o 3 blynedd. Byddai llunio Strategaeth newydd o fewn y flwyddyn, i gydymffurfio â safonau 145-174 yn ddibwrpas. Mae amheuaeth hefyd ynglŷn â gallu'r Cyngor i fesur effaith gwireddu uchelgais unrhyw strategaeth bob 5 mlynedd, gan mai'r Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell ddata ar gyfer mesur nifer a chanran siaradwyr Cymraeg.

<u>Cyffredinol.</u>

- Nid yw'r safonau arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth y camau blaengar mae'r Cyngor hwn yn eu cymryd eisoes a rhaid i hynny gael ei grisialu yn y safonau mewn rhyw ffordd.

Pwysleisiwyd yr angen i roi cyhoeddusrwydd ehangach i'r ymgynghoriad a'r sylwadau gan hefyd lobïo am ymestyn y safonau i holl gyrff llywodraeth ganolog sy'n weithredol yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r swyddogion:-**

**(a) Grynhoi'r pwyntiau a godwyd a chylchredeg ymateb yr Aelod Cabinet i aelodau'r pwyllgor, ar ffurf drafft os yw amser yn caniatáu.**

**(b) Rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i'r ymgynghoriad a'r sylwadau drwy**

**gyfrwng yr Uned Gyfathrebu a Rhaeadr.**

**(c) Lobïo am ymestyn y safonau i holl gyrff llywodraeth ganolog sy'n weithredol yng Nghymru.**

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 4.00pm.

**CADEIRYDD**